
Canllaw Hawdd ei Dadeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Brechlyn COVID-19 i bobl gydag anabledd dysgu difrifol neu salwch meddwl difrifol

**Canllaw hawdd ei ddeall i helpu pobl i ddeall os dylen nhw gael brechyn COVID-19, yng ngrŵp blaenoriaeth 6**




Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Lywodraeth Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o **"Covid-19 vaccinations for individuals with a learning disability or severe mental illness."**

**24 Chwefror 2021**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Mae hwn yn fersiwn hawdd ei ddeall. Mae'r geiriau a beth maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall. Ond efallai y byddwch chi angen cymorth.



Efallai bod y geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn anodd eu deall. Mae beth maen nhw'n feddwl yn cael ei esbonio yn y blwch o dan y gair.




Os ydy'r gair anodd yn cael ei ddefnyddio eto mae mewn ysgrifen glas normal. Mae beth mae'r holl eiriau yn feddwl yn y geiriau anodd ar **dudalen 13**.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. Am ragor o wybodaeth ewch i wefan Llywodraeth Cymru, drwy glicio yma.

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y ddogfen hawdd ei deall yma, cliciwch yma.

# Cyflwyniad


Canllaw Hawdd ei Ddeall


Brechlyn COVID-19 i bobl gydag anabledd dysgu difrifol neu salwch meddwl difrifol

Canllaw hawdd ei ddeall i helpu pobl i ddeall os dylen nhw gael brechyn COVID-19, yng ngrŵp blaenoriaeth 6


Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan Lywodraeth Cymru. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o "Covid-19 vaccinations for individuals with a learning disability or severe mental illness."

24 Chwefror 2021

Mae'r ddogfen yma yn helpu pobl i ddeall sut y bydd y **brechlyn COVID-19** yn cael ei roi i bobl yng Nghymru.




Salwch ydy **COVID-19** sydd yn cael ei achosi gan feirws o'r enw coronafeirws. Dyna pam mae'n rhaid inni aros gartref a gwisgo mwgwd.




Meddyginiaeth ydy'r **brechlyn COVID-19** sydd yn eich helpu i gadw'n ddiogel rhag dal a lledaenu **COVID-19**.



Fe fydd y ddogfen yma yn helpu i esbonio pryd y dylai pobl gydag **anabledd dysgu** neu **salwch meddwl difrifol** gael y brechlyn.



Dydy rhai pobl gydag **anabledd dysgu** ddim yn gallu cyfathrebu'n dda iawn. Ac efallai yn methu byw'n annibynnol.

Efallai bod gan rhywun gydag **anabledd dysgu difrifol** lawer o broblemau gyda gweld, clywed, siarad a symud.



Mae **salwch meddwl difrifol** yn cynnwys pethau fel:

- sgitsoffrenia
- anhwylder bipolar
- a salwch meddwl difrifol arall sydd yn stopio pobl rhag gallu edrych ar ôl eu hunain.

# Ein cynllun i gael y brechlyn COVID-19 i bawb yng Nghymru




Yn Ionawr 2021, fe wnaethon ni ddweud beth oedd ein cynllun ar gyfer rhoi'r **brechlyn COVID-19** i bawb yng Nghymru.

**Mae'r cynllun brechlyn COVID-19 yn dweud:**




- **Sut** fyddwn ni'n rhoi'r brechlyn COVID-19 mor gyflym ac mor ddiogel â phosibl.




- Pa grwpiau o **bobl** ddylai gael y brechlyn gyntaf.




Mae’r cynllun yn dilyn y cyngor gan y **Cyd Bwyllgor ar Frechu ac Imiwneiddio** neu **JCVI**.



Grŵp o feddygon ac arbenigwyr eraill ydy **JCVI**. Maen nhw’n rhoi cyngor arbenigol i’r llywodraeth am frechlynnau. A sut i amddiffyn pobl rhag heintiau ac afiechydon.



Mae Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a’r Alban yn dilyn cyngor gan y JCVI.




Mae’r JCVI wedi ysgrifennu rhestr yn dweud pa grwpiau o bobl ddylai gael y brechlyn gyntaf. Mae’n cael ei alw yn **rhestr flaenoriaeth**.



Mae 9 o grwpiau blaenoriaeth yn y rhestr flaenoriaeth. Mae **Grŵp Blaenoriaeth 1** wedi cael y brechlyn gyntaf. Fe fyddwn ni’n gweithio drwy’r grwpiau nes bod pawb wedi cael cynnig y brechlyn.


**Mae pobl wedi cael eu rhoi mewn grwpiau blaenoriaeth yn ôl:**



- Pa mor debygol y maen nhw o farw os ydyn nhw'n cael COVID-19.




- Pa mor debygol y maen nhw o fynd yn sâl iawn ac angen mynd i'r ysbyty os ydyn nhw'n cael COVID-19.



Rydyn ni'n gobeithio y bydd hyn yn helpu i leihau'r nifer o bobl sydd yn mynd yn sâl iawn ac yn marw o COVID-19.

# Pobl gydag anabledd dysgu difrifol neu salwch meddwl difrifol




Mae'r JCVI wedi dweud y dylai pobl gydag anabledd dysgu difrifol neu salwch meddwl difrifol fod yng **ngrŵp blaenoriaeth 6**.



Fe fydd yn anodd darganfod pawb sydd ag anabledd dysgu difrifol neu salwch meddwl difrifol gan ddefnyddio cofnodion iechyd yn unig.



Dydyn ni ddim eisiau i bobl gael eu gadael allan.



Rydyn ni'n gofyn i Fyrddau Iechyd ac eraill i'n helpu ni i ddarganfod pawb sydd i fod yng **ngrŵp blaenoriaeth 6**.



Mae'n well gennym gynnwys mwy o bobl nag rydyn ni angen na gadael pobl allan.

Mae Byrddau Iechyd yn gallu defnyddio beth maen nhw'n ei wybod am bobl yn eu hardal. A gweithio gyda:




- meddygon teulu
- cynghorau
- cyrff elusennol
- timau anabledd dysgu cymunedol a thimau iechyd meddwl
- gwasanaethau arbenigol fel gwasanaethau cam-drin sylweddau
- teuluoedd a gofalwyr



i wneud yn siŵr bod pawb sydd i fod yng **ngrŵp blaenoriaeth 6** yn cael cynnig y brechlyn ar yr amser cywir.




I helpu i benderfynu os ydy person i fod yng **ngrŵp blaenoriaeth 6** oherwydd anabledd dysgu neu salwch meddwl difrifol mae angen edrych ar y pethau yma:



- Pa gyflyrau iechyd sydd gan y person.



- Beth ydy eu cefndir. Mae pobl Ddu ac Asiaidd yn fwy tebygol o fynd yn sâl iawn os ydyn nhw'n cael COVID-19.




- Os ydyn nhw'n byw mewn ardal dlawd.



- Pa fath o gartref maen nhw'n byw ynddo. Er enghraifft, byw gyda chefnogaeth.



- Ydyn nhw'n gallu dilyn rheolau i gadw'n ddiogel – gwisgo mwgwd, ymolchi dwylo yn aml a chadw i ffwrdd oddi wrth bobl.



- Sut maen nhw'n gallu ymdopi gyda thriniaeth meddygol.



- Os ydy gwasanaethau yn gwybod amdanyn nhw. Fel y tîm iechyd meddwl cymunedol, neu'r tîm anabledd dysgu cymunedol.

# Cefnogi pobl i gael y brechlyn



I wneud yn siwr bod llawer o bobl yn cael y brechlyn, mae angen inni wneud cael brechlyn mor hawdd ac mor gyfforddus â phosibl.




Fe fydd pobl yn teimlo'n fwy cyfforddus a dan llai o straen os ydyn nhw'n cael y brechlyn mewn lle maen nhw'n ei adnabod. Fel eu meddygfa.




Lle mae'n bosibl fe ddylai brechlyn gael ei roi mewn meddygfa.




Mae brechlyn yn gallu cael ei roi mewn lleoedd eraill, fel clinigau gofal iechyd, os ydy hyn yn gweithio yn well i bobl.



Os ydy person gydag anabledd dysgu neu salwch meddwl difrifol yn penderfynu **peidio** cael y brechlyn COVID-19, fe ddylen ni wneud popeth rydyn ni'n gallu i weld bod ganddyn nhw'r holl wybodaeth maen nhw ei angen i wneud y dewis hwnnw.




Os nad ydy person yn gallu gwneud penderfyniad eu hunain rhaid inni ddilyn y gyfraith i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud beth sydd orau iddyn nhw.




Rhaid inni wneud **addasiadau rhesymol** i gefnogi pobl i gael eu brechlyn.




**Addasiadau rhesymol** ydy newidiadau mae lleoedd a gwasanaethau yn gallu eu gwneud i wneud yn siŵr bod pawb yn gallu eu defnyddio nhw.

**Er enghraifft:**




- Fe ddylen ni wneud yn siŵr bod pobl yn cael yr holl wybodaeth maen nhw ei angen yn y ffordd maen nhw ei angen.



- Cefnogi pobl i gynllunio a pharatoi ar gyfer y brechlyn.



- Defnyddio pethau i'w helpu nhw i ymlacio, fel cyffwrdd, cerddoriaeth ac arogleuon neis.



**Peidiwch â phoeni os nad ydych chi'n siŵr os ddylech chi fod yng ngrŵp blaenoriaeth 6 neu beidio.**



**Fe fydd rhywun yn cysylltu gyda chi ac yn cynnig brechlyn i chi yn fuan. Ond os oes gennych chi unrhyw gwestiynau rydych chi'n gallu ffonio Llinell Gymorth Anabledd Dysgu Cymru ar 0808 8000 300**

# Geiriau anodd

## Addasiadau rhesymol

Newidiadau ydy addasiadau rhesymol y mae lleoedd a gwasanaethau yn eu gwneud i wneud yn siŵr bod pawb yn gallu eu defnyddio nhw.

## Anabledd dysgu difrifol

Efallai bod gan rhywun gydag anabledd dysgu difrifol lawer o broblemau gyda gweld, clywed, siarad a symud

## Brechlyn COVID-19

Meddyginiaeth ydy'r brechlyn COVID-9 sydd yn helpu i'ch cadw'n ddiogel rhag dal a lledaenu COVID-19. Dydy pobl gydag anabledd dysgu difrifol ddim yn gallu cyfathrebu'n dda iawn, A dydyn nhw ddim yn gallu byw'n annibynnol.

## COVID-19

Salwch ydy COVID-19 sydd yn cael ei achosi gan feirws o'r enw coronafeirws. Dyna pam mae'n rhaid inni aros adref a gwisgo mwgwd.

## Cyd Bwyllgor ar Frechu ac Imiwneiddio neu JCVI

Grŵp o feddygon ac arbenigwyr eraill ydyJCVI. Maen nhw'n rhoi cyngor arbenigol i'r llywodraeth am frechlynnau. A sut i amddiffyn pobl rhag heintiau ac afiechydon.

## Salwch meddwl difrifol

Mae salwch meddwl difrifol yn cynnwys pethau fel:

- sgitsoffrenia
- anhwylder bipolar
- a salwch meddwl difrifol eraill sydd yn stopio pobl rhag gallu edrych ar ôl eu hunain.